Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-841
Ein cyf/Our ref KS/02689/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.
government.committee.business@wales..Cymru.

24 Medi 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Medi ynghylch Deiseb P-05-841 i gynnwys y dewis arall i'r cynnig 'Pont Bendigeidfran' ar gyfer y 3ydd Bont ar draws y Fenai yn y broses asesu ffurfiol.

Cawsom ymateb manwl gan Mr Poulton yn hyrwyddo Pont Bendigeidfran fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r fideo manwl oedd Mr Poulton wedi'i baratoi oedd yn dogfennu hanes pontydd Menai a Britannia a'i ysbrydoliaeth o storïau'r Mabinogi i adeiladu cofgolofn o Bendigeidfran fel dull o gynnal y bont ar hyd y Llwybr Porffor. Rwy'n cymeradwyo'r gwaith y mae wedi'i wneud.

Mae ymateb Mr Poulton wedi'i asesu gyda'r ymatebion eraill i'r ymgynghoriad ac ar y cyd â'r gwerthusiadau technegol, amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol a byddaf yn cyhoeddi'r Llwybr a Ffefrir yn seiliedig ar y gwaith hwn yn fuan.

Yn amlwg, dim ond dechrau'r datblygiadau ar gyfer y 3ydd Bont ar draws y Fenai yw hyn a bydd angen mwy o ddadansoddi i ddatblygu strwythur addas ar gyfer tirwedd sensitif yr Afon Menai fel rhan o gam nesaf datblygu'r cynllun. Gellir asesu cynigion Mr Poulton ymhellach felly a'u hystyried yn ystod y cam nesaf hwn.

Yn gywir

Ken

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.